

Cymedroli asesiadau athrawon

Canllawiau i ysgolion a chlystyrau

2016/2017

Canllawiau ar gymedroli asesiadau athrawon mewn ysgolion a chlystyrau

Mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi cyflwyno rhaglen ddilysu genedlaethol ar gyfer gwella cysondeb, dibynadwyedd a hyder mewn asesiadau athrawon. Mae cymedroli clystyrau yn rhan gritigol o'r broses hon. Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth a chynghor ar gyfer gwella trefniadau cymedroli clystyrau a chysondeb o ran cymedroli gwaith disgyblion yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.

Ar ôl ymgynghori ar gynigion i atgyfnerthu trefniadau i wella dibynadwyedd, cysondeb a hyder mewn asesiadau athrawon, erbyn hyn mae'n orfodol i bob ysgol fod yn rhan o gymedroli clwstwr.

Cynnwys

		Tudalen
1	Beth yw cymedroli clwstwr?	3
2	Beth yw cyfrifoldebau'r Pennaeth?	3
3	Pwy ddylai fynychu digwyddiadau cymedroli?	3
4	Pryd ddylai cymedroli ddigwydd?	4
5	Sut ddylid trefnu'r cyfarfod clwstwr?	5
6	Proffiliau dysgwyr - beth sydd angen i athrawon fynd gyda hwy i'r cyfarfod?	9
7	Proffiliau dysgwyr - beth yw dyfarniad ffit orau?	9
8	Sut mae rhai ysgolion a chlystyrau yn paratoi ar gyfer cymedroli?	11
9	Cwestiynau cyffredin ynglŷn â chymedroli clwstwr	12
	<i>Atodiadau</i>	
A	Enghraifft o amserlen consortiwm ar gyfer cymedroli clwstwr	14
B	Sylwadau ar broffil dysgwr - templed	15
C	Adroddiad ar gymedroli clwstwr - templed	16
Ch	Adroddiad ar gymedroli clwstwr - canllawiau	17
D	Adroddiad ar gymedroli clwstwr - enghraifft	18
Dd	Proses sampl ar gyfer sefydlu prosesau safoni a chymedroli yn yr ysgol	20

Cynhyrchir y canllawiau hyn ar y cyd gan y pedwar consortiwm addysg.

1. Beth yw cymedroli clwstwr?

Cymedroli clwstwr yw pan fo athrawon o ysgolion mewn clwstwr penodol yn ystyried ystod o waith gan ddysgwr unigol a, thrwy ystyried perfformiad cyffredinol, yn penderfynu ar safon gytunedig ar gyfer y corff o waith e.e. drwy gadarnhau lefel 'ffit orau'. Mewn rhai pynciau bydd hyn yn gymwys i dargedau cyrhaeddiad ar wahân yn ogystal â'r pwnc yn ei gyfanrwydd.

Heb safoni a chymedroli effeithiol mewn ysgolion mae'n anoddach rhoi dyfarniadau manwl gywir a chynnig adborth adeiladol mewn perthynas â chymedroli clwstwr. Gweler '*Arweiniad byr ar asesu mewn ysgolion*' am fwy o fanylion am egwyddorion safoni a chymedroli effeithiol.

2. Beth yw cyfrifoldebau'r Pennaeth?

Er mwyn cydymffurfio â threfniadau asesu Statudol Lywodraeth Cymru ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (CS) a diwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2016/2017) mae'n rhaid i benaethiaid sicrhau:


- bod eu cynrychiolwyr ysgol yn mynychu pob cyfarfod cymedroli'r grŵp clwstwr;
- eu bod yn caniatáu digon o amser ar gyfer cyfarfodydd cymedroli'r grŵp clwstwr, a'u bod yn rhwydweithio â phenaethiaid eraill yn y grŵp clwstwr er mwyn cydlynu argaeledd athrawon;
- bod eu hathrawon eu hunain yn dethol proffiliau dysgwyr o'u dosbarthiadau fel tystiolaeth i'w hystyried gan gymedrolwyr y grŵp clwstwr;
- eu bod yn rhoi cymorth i'r athrawon sy'n eu cynrychioli i rannu deilliannau'r cyfarfodydd grŵp clwstwr ag aelodau eraill o'r staff;
- bod penderfyniadau cytunedig a deilliannau'r cyfarfodydd grŵp clwstwr yn cael eu gweithredu gan yr holl staff perthnasol yn eu hysgolion, cyn bod athrawon yn asesu ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Mae'n rhaid i Benaethiaid sicrhau, yn **achos Cymraeg iaith gyntaf neu Gymraeg ail iaith, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth**, bod cyfarfodydd grŵp clwstwr ar gyfer pontio Cyfnodau Allweddol 2 a 3 yn cynnwys trefniadau cadarn ar gyfer cymedroli enghreifftiau o broffiliau dysgwyr Blwyddyn 6 a Blwyddyn 9 a ddewiswyd o ysgolion y grŵp clwstwr ei hun.

3. Pwy ddylai fynychu digwyddiadau cymedroli?

Mae digwyddiadau cymedroli clwstwr yn canolbwyntio ar Gymraeg iaith gyntaf neu Gymraeg ail iaith, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, ac felly cyfrifoldeb y pennaeth yw penderfynu pa athro/athrawon sydd fwyaf priodol i'w mynychu. Mae'r cyngor gan Lywodraeth Cymru yn cynnig y dylai penaethiaid eu mynychu hefyd neu, yn achos ysgolion uwchradd, aelod o'r uwch dîm arwain (UDA).

4. Pryd ddylai cymedroli ddigwydd?



Mae siart cynnydd o'r dechrau i'r diwedd Llywodraeth Cymru yn dangos ar ba adegau yn ystod y flwyddyn ysgol y mae angen i weithgareddau safoni a chymedroli gael eu cynnal. Y cyfarfod cymedroli clwstr yw penllanw'r gweithgaredd asesu drwy gydol y flwyddyn, ond mae hefyd yn hysbysu cynllunio ac arferion y dyfodol.

Daw hyn o Ganllawiau Statudol LIC 2014. Bydd fersiwn adolygiedig yn cael ei gyhoeddi yn fuan ar gyfer 2015.

Gellir trefnu cyfarfodydd cymedroli mewn ysgol, er mwyn aseinio lefelau i waith disgyblion unigol, yng nghalendr yr ysgol yn gynnar yn ystod y broses. Mewn rhai ysgolion mae'r cyfarfodydd yma yn cael eu cynnal bob tymor, a gallant gynnwys ysgolion eraill hefyd. Mae'r gwaith paratoadol hwn, yn ogystal â chyfarfodydd safoni, yn cefnogi athrawon mewn perthynas â'u gwaith o addysgu o ddydd i ddydd ac asesu dysgwyr, ond mae hefyd yn rhoi'r ysgol mewn sefyllfa dda ar gyfer y digwyddiad cymedroli clwstwr yn ystod tymor yr haf.

Mae cymedroli traws-ysgol ar lefel uwchradd hefyd yn arfer dda, a dylid ei annog.

Mae'n rhaid i amseru'r cymedroli clwstwr gyd-fynd â'r amserlen adrodd a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, gan ystyried y bydd angen amser mewn rhai ysgolion, yn dilyn y cymedroli clwstwr, ar gyfer adolygu, ac addasu o bosibl, y lefelau a bennwyd i ddisgyblion blwyddyn 6 a blwyddyn 9.

Bydd pob awdurdod lleol neu gonsortiw m yn ysgrifennu at yr ysgolion i'w hysbysu am ddyddiadau allweddol ar gyfer gweithgaredd hyfforddiant fydd yn arwain at y cyfarfodydd cymedroli clwstwr. Gweler Atodiad 1 i weld y math o amserlennu fydd angen digwydd; bydd yr amserlen yn amrywio o un consortiw m i'r llall.

5. Sut ddylid trefnu'r cyfarfod clwstwr?

Mae'n hanfodol bod y Penaethiaid yn penodi cydweithiwr i weithredu fel Cadeirydd ar gyfer pob digwyddiad clwstwr. Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig gan y consortia ar gyfer y rôl yma. Cyfrifoldeb y Cadeirydd fydd llenwi'r profforma adborth yn dilyn pob digwyddiad cymedroli pwnc y clwstwr.

Rhoddir manylion isod ynglŷn â chyfrifoldebau Cadeirydd y Clwstwr, Penaethiaid ac athrawon, cyn ac ar ôl y cymedroli clwstwr.

CYN cymedroli clwstwr

Dylai Cadeirydd y Clwstwr (penodwyd gan y clwstwr) :	Dylai Penaethiaid :	Dylai Athrawon :
<ul style="list-style-type: none"> • Pennu dyddiadau ar gyfer yr holl ddigwyddiadau safoni a chymedroli, hysbysu'r ALI/consortiw m ynglŷn â dyddiadau cymedroli clwstwr. (Bydd Atodiad A, wedi ei gwblhau ar gyfer eich consortiw m, yn darparu dyddiadau ar gyfer beth sydd raid i ysgolion ei wneud a phryd). • Cytuno ar ddyraniadau amser priodol ar gyfer pob pwnc yn y clwstwr (awgrymir o leiaf hanner diwrnod ar gyfer pob pwnc) • Atgoffa penaethiaid y clwstwr am y meini prawf yn y canllawiau hyn ar gyfer 	<ul style="list-style-type: none"> • Atgoffa'r holl aelodau staff perthnasol o'r adborth o gyfarfodydd cymedroli clwstwr blaenorol a sicrhau y gweithredwyd ar y cyngor hwnnw. • Rhwydweithio â phenaethiaid eraill yn y grŵp clwstwr er mwyn cydlynu argaeledd athrawon. • Cynllunio ar gyfer rhyddhau athrawon perthnasol a sicrhau eu bod yn mynychu digwyddiadau hyfforddiant cymedroli yn ystod tymor yr Hydref. • Cynllunio ar gyfer rhyddhau athrawon perthnasol ar gyfer gweithgareddau paratoi, a 	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod y tasgau wedi'u dylunio i alluogi disgyblion i arddangos sgiliau mewn ystod eang o weithgareddau a chyd-destunau, gan fodloni gofynion rhaglenni astudiaeth y pwnc. • Ar gyfer pob pwnc, dewis y disgyblion hynny y bydd eu llyfrau, a chofnodion dysgu eraill, yn ffurfio'r proffiliau dysgwyr fydd yn cael eu hystyried yn ystod y broses o gymedroli clwstwr. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, bydd hyn yn waith un disgybl y dyfernir yn gyffredinol ei fod ar lefel 4,

<p>dethol disgyblion y bydd eu llyfrau a chofnodion dysgu eraill yn ffurfio'r proffiliau dysgwyr (gweler hefyd y canllawiau pynciau yn y ddogfen hon).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau y cytunir ar ddull cyffredin o gyfeirio yn y proffiliau dysgwyr, megis defnyddio 'post-its'. 	<p>gwarantu y byddant yn mynychu digwyddiadau cymedroli clwstwr.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod unrhyw brotocolau cytunedig ar gyfer cymedroli clwstwr yn cael eu rhannu ag aelodau staff priodol. • Sicrhau bod safoni a chymedroli yn yr ysgol yn cael ei gwblhau cyn y cymedroli clwstwr. • Sicrhau ansawdd (safoni a chymedroli) y dyfarniadau a wnaethpwyd eisoes yn fewnol. 	<p>ac un ar lefel 5. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, bydd hyn yn waith un disgybl y dyfernir yn gyffredinol ei fod ar lefel 5, ac un ar lefel 6.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Paratoi'r proffiliau dysgwyr, fel uchod, drwy ysgrifennu sylwadau ar bob un, gan gyfiawnhau'r lefel gyffredinol a ddyfarnwyd a dynodi ble, yng nghorff y gwaith, ceir tystiolaeth o nodweddion y lefel neu lefelau (Atodiad 2) • Paratoi i fynychu digwyddiadau clwstwr fel cynrychiolydd yr ysgol a bod yn barod i ddangos dealltwriaeth o gymhwyso lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar draws yr ystod o waith sy'n ddisgwyliedig yn y pwnc.
---	--	--

Y cyfarfod cymedroli clwstwr

Dylai Cadeiryddion y Clwstwr (penodwyd gan y clwstwr) :	Dylai Penaethiaid :	Dylai Athrawon :
<ul style="list-style-type: none"> • Arwain cyfarfodydd cymedroli gan sicrhau: <ul style="list-style-type: none"> - bod pawb sy'n bresennol yn deall yn iawn beth yw pwrpas y cyfarfod cymedroli; - bod trafodaeth berthnasol, ddiamwys â ffocws iddi yn rhan ganolog o'r drafodaeth ynglŷn â'r lefelau cyrhaeddiad a welir yn y proffiliau dysgwyr; - bod yr holl gyfranogwyr yn deall y cysyniad o ddyfarniadau 'ffit orau' a sut i'w gymhwyso; - mai disgrifiadau lefel y CC yw'r UNIG gyfeiriadau a ddefnyddir wrth benderfynu ar lefelau ffit orau; - bod amser priodol yn cael ei neilltuo ar gyfer cymedroli'r holl dargedau cyrhaeddiad ar gyfer pob proffil dysgwr; - bod proffiliau dysgwyr o bob ysgol yn y clwstwr yn cael eu cymedroli ym mhob un o'r pynciau craidd; - bod negeseuon allweddol o'r broses cymedroli clwstwr yn cael eu cofnodi a'u hanfon i'r ysgolion yn y clwstwr; - bod technoleg addas ar gael, pan fo hynny'n briodol e.e. gliniadur, delweddydd, taflunydd a seinyddion; • Crynhoi a nodi adborth gan benaethiaid ac athrawon am y gweithdrefnau a ddilynwyd, ystod y gwaith a welwyd a'r lefelau y cytunwyd arnynt ar gyfer pob un o'r proffiliau 	<ul style="list-style-type: none"> • Mynychu cyfarfodydd cymedroli clwstwr diwedd cyfnod allweddol gyda'r athrawon perthnasol. Os nad yw hyn yn ymarferol ar gyfer pob pwnc, gallai aelod o'r UDA fynychu ar ran y pennaeth. • Sicrhau bod eu hathrawon eu hunain yn mynd â'r casgliadau angenrheidiol o waith disgyblion gyda hwy (proffiliau dysgwyr), yn cynnwys sylwadau, fel tystiolaeth i'w hystyried yng nghyfarfod cymedroli'r grŵp clwstwr. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mynd â'r proffiliau dysgwyr angenrheidiol i'r cyfarfod. Mae pob proffil dysgwr yn gasgliad o waith y disgybl, gyda sylwadau sy'n egluro'r lefel a ddyfarnwyd, ac mae hefyd yn cyfeirio'r darlennydd at dystiolaeth yn y llyfrau. Mae'n bwysig bod y casgliad o waith yn cynnwys llyfrau'r disgyblion a thystiolaeth berthnasol arall; nid oes angen dod â mwy nag un copi o'r casgliadau hyn (proffiliau dysgwyr). • Mynd â'r sylwadau ar gyrraeddiad pob disgybl, sy'n rhan o broffil y dysgwr ac sy'n cyfiawnhau'r lefel ffit orau a ddyfarnwyd, i'r cyfarfod. • Cyfrannu at y broses o gymedroli'r gwaith gyda gwrthrychedd proffesiynol a sylwadau adeiladol. • Arsylwi a chofnodi arferion da er mwyn defnyddio hynny fel rhan o'u harferion eu hunain ac arferion yr ysgol gyfan.

dysgwyr.

--	--	--

AR ÔL Cymedroli Clwstwr

Dylai Cadeiryddion y Clwstwr (penodwyd gan y clwstwr) :	Dylai Penaethiaid :	Dylai Athrawon :
<ul style="list-style-type: none">• Gwblhau profforma adborth ar gyfer pob clwstwr o ysgolion (Atodiadau 3, 4 a 5).• Llenwi a dychwelyd y daflen adrodd yn ôl ar y cyfarfod i'r ALI/consortium ynghyd â'r adroddiad clwstwr.	<ul style="list-style-type: none">• Cefnogi a rhoi cyfleoedd i'w hathrawon rannu deilliannau'r cyfarfodydd grŵp clwstwr ag aelodau eraill o'r staff.• Caniatáu amser i athrawon dosbarth ailedrych ar lefelau asesiadau athrawon, pan fo hynny'n briodol, ar ôl derbyn adborth y clwstwr.• Cytuno ar lefelau adolygedig gydag athrawon perthnasol.• Sicrhau bod penderfyniadau cytunedig a deilliannau cyfarfodydd grŵp y clwstwr yn cael eu gweithredu gan yr holl staff perthnasol yn eu hysgol eu hunain h.y. cyn bod athrawon yn asesu ar ddiwedd cyfnod allweddol, pan fo'r rhain yn gysylltiedig â lefelau a ddyfarnwyd i ddisgyblion ym mlynnyddoedd 6 a 9.• Yn ystod tymor yr haf neu ar ddechrau tymor yr hydref, gweithredu argymhellion y cyfarfod clwstwr sy'n gysylltiedig â chynllunio ac asesu'r ysgol gyfan a darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus priodol.	<ul style="list-style-type: none">• Adolygu ac addasu, yn ôl yr angen, y lefelau a ddyfarnwyd i ddisgyblion ym mlynnyddoedd 6 a 9 cyn y cymedroli clwstwr.• Cyfrannu at unrhyw gymedroli mewnol ychwanegol gyda chydweithwyr er mwyn cwblhau lefelau ar gyfer yr holl ddisgyblion.• Rhannu deilliannau'r broses gymedroli clwstwr gydag aelodau staff perthnasol eraill ac adolygu arferion presennol.

6. Proffiliau dysgwyr - beth sydd angen i athrawon fynd gyda hwy i'r cyfarfod?

Dylai proffil dysgwr fod mor syml â llyfr neu lyfrau'r dysgwr sy'n dangos tystiolaeth o nodweddion lefelau a tharged/targedau cyrhaeddiad perthnasol. Gall gwaith arall fyddai'n cwblhau'r darlun o safon y disgybl gynnwys llyfr thema/testunol, recordiadau sain neu weledol, cofnod darllen. Mae sylwadau gan yr athro sy'n cyfiawnhau'r lefel a ddyfarnwyd, gan gyfeirio'r darllenydd at y dystiolaeth, yn cwblhau'r proffil dysgwr (Atodiad 2). Nid oes yna nifer penodol o dasgau y gellir neu y dylid cyfeirio atynt yn y modd hwn.

Ar gyfer y cyfarfod cymedroli clwstwr yn ystod tymor yr haf, bydd angen i bob ysgol gyflwyno dau broffil dysgwr:

- CA2 - un ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 4 iddo, ac un arall ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 5 iddo

- CA3 - un ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 5 iddo, ac un arall ar gyfer disgybl y dyfarnwyd ffit orau lefel 6 iddo

Yn achos ysgolion cynradd ac uwchradd, mae hyn yn cynrychioli un proffil dysgwr ar y lefel ddisgwyliedig ac un ar y lefel ddisgwyliedig + 1.

Efallai y bydd clwstwr yn dymuno ymestyn yr ystod gwaith hwn drwy gyfundeb e.e. bod ysgolion cynradd hefyd yn dod â ffit orau lefel 6, a bod ysgol uwchradd hefyd yn dod ffit orau lefel 4

7. Proffiliau dysgwyr - beth yw dyfarniad ffit orau?

Mae'n hanfodol gwybod bod yr hyn y mae ysgol yn ei gyflwyno mewn digwyddiad cymedroli clwstwr yn adlewyrchu'r safonau a ddefnyddiwyd i ddyfarnu lefel i'r holl broffiliau dysgwyr ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Mae penderfynu ar lefel sy'n ffitio'r dystiolaeth orau yn ddyfarniad proffesiynol a wneir gan yr athro ac nid yw'n broses fformwlaig o agregu sgoriau neu is lefelau, ond dylai roi ystyriaeth i bwysoliadau ar draws Targedau Cyrhaeddiad yn achos Cymraeg a Saesneg. Mae dyfarniad cyffredinol neu ddyfarniad ffit orau yn un:

- sy'n seiliedig ar wybodaeth ynghylch sut mae'r disgybl yn perfformio ar draws yr ystod o waith sy'n ofynnol yn y pwnc;
- sy'n ystyried gwahanol gryfderau a gwendidau ym mherfformiad y dysgwr a faint o gymorth a dderbyniodd y disgybl;
- sy'n cael ei wirio yn erbyn disgrifiadau'r lefel agosaf i sicrhau mai'r lefel a ddyfarnwyd fel yr un mwyaf priodol oedd yr agosaf yn gyffredinol at berfformiad y dysgwr;
- sy'n cyfeirio at feini prawf (h.y. sylwadau, gyda chyfeiriadau at yr enghreifftiau perthnasol yng nghorff gwaith disgybl sy'n dangos pan fod y gwaith yn nodweddiadol o'r lefel honno).

Yn nodweddiadol, mae dysgwr **ar ben isaf unrhyw lefel** yn dangos nodweddion y lefel honno yn bennaf ar draws ystod o waith, ond gall hefyd ddangos nodweddion y lefel flaenorol mewn rhai agweddau o'r gwaith.

Mae dysgwr sy'n **perthyn yn sicr i'r lefel** yn dangos nodweddion y lefel honno ar draws ystod o

waith.

Mae dysgwr ar **ben uchaf unrhyw lefel** yn amlwg yn dangos nodweddion y lefel honno ar draws ystod o waith gyda rhai enghreifftiau o nodweddion y lefel nesaf.

Mae angen dyfarnu un lefel ddiamwys hefyd i *ddyfarniadau ar y ffin* (h.y. pan fo'r dystiolaeth yn dangos bod yn rhaid penderfynu rhwng dwy lefel bosibl) . Ar ddiwedd y cyfnod allweddol, mae'n rhaid adrodd yn ôl ar gyrhaeddiad dysgwyr yn nhermau'r deilliant cyfan neu lefel fwyaf priodol.

8. Sut mae rhai ysgolion a chlystyrau yn paratoi ar gyfer cymedroli?

Astudiaethau Achos ar reoli Asesiadau Athrawon (gweler hefyd Atodiad 7 ar gyfer sefydlu safoni a chymedroli mewn arferion ysgol)

Ysgol A

- Mae'r pennaeth ysgol gynradd yn cynllunio cyfres o gyfarfodydd safoni ar gyfer yr holl staff, yn cynnwys cynorthwyrwyr addysgu, fydd yn trafod yr holl grwpiau blwyddyn o Flwyddyn Derbyn i Flwyddyn 6.
- Mae'r cyfarfodydd staff wedi eu neilltuo ar gyfer safoni bob hanner tymor er mwyn annog dealltwriaeth ar y cyd o beth yw'r lefelau.
- Mae cyfarfodydd cymedroli proffiliau dysgwyr o'r holl grwpiau blwyddyn yn fewnol yn cael eu cynnal yn rheolaidd bob tymor ac mae'r holl staff yn gynwysedig.
- Mae'r pennaeth yn sicrhau bod yr ysgol yn cael ei chynrychioli yn yr holl ddigwyddiadau safoni a chymedroli clwstwr.
- Mae'r holl staff yn cyfrannu at gymedroli proffiliau dysgwyr yn fewnol ar ddiwedd cam/cyfnod allweddol, er mwyn sicrhau cysondeb asesiadau athrawon cyn y cyfarfod cymedroli clwstwr statudol ym mis Mawrth/Ebrill.
- Mae'r ysgol yn cyflwyno data asesu diwedd cyfnod allweddol.

Ysgol B

- Mae'r pennaeth ysgol uwchradd yn trafod gydag arweinwyr pynciau craidd i sicrhau bod cylch rheolaidd o sesiynau safoni a chymedroli mewnol yn cael ei ymgorffori yn y calendr cyfarfodydd blyneddol a'i fod yn ategu cylch cyfarfodydd safoni a chymedroli'r clwstwr.
- Ar lefel pwnc, mae penaethiaid adran yn cynllunio cyfres o sesiynau safoni, fel rhan o gyfarfodydd adran bob hanner tymor, ac mae hyn yn cynnwys holl aelodau'r adran.
- Ar lefel pwnc, mae penaethiaid adran yn cynllunio cyfres o sesiynau cymedroli, fel rhan o gyfarfodydd adran bob tymor, ac mae hyn yn cynnwys holl aelodau'r adran.
- Mae'r pennaeth yn sicrhau bod yr UDA a'r pwnc yn cael eu cynrychioli ym mhob digwyddiad safoni a chymedroli pynciau craidd y clwstwr.
- Mae holl staff perthnasol yr adran yn cyfrannu at gymedroli proffiliau dysgwyr yn fewnol ar ddiwedd cyfnod allweddol er mwyn sicrhau cysondeb asesiadau athrawon cyn y cyfarfod cymedroli clwstwr statudol ym mis Mawrth/Ebrill/Mai.
- Mae'r ysgol yn cyflwyno data asesu diwedd cyfnod allweddol.

9. Cwestiynau cyffredin ynglŷn â chymedroli clwstwr

C. Pam fod y canllawiau yn wahanol ar gyfer pob pwnc craidd?

A. Mae yna amrywiadau yn y canllawiau ar gyfer pob pwnc craidd yn ddibynnol ar sgiliau ac ystod pob pwnc craidd unigol a hefyd ar nifer y targedau cyrhaeddiad. Yn achos Cymraeg, Cymraeg Ail Iaith, a Saesneg, cymhwysir pwysoliad i bob targed cyrhaeddiad. Yn Saesneg mae hwn yn bwysoliad cyfartal, mewn Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith mae'r pwysoliad yn fwy ar gyfer llefaredd nag yw ar gyfer darllen ac ysgrifennu. Mae'r pwysoli ar gyfer Cymraeg Ail Iaith hefyd yn amrywio o CA2 (llefaredd 70%, darllen 15%, ysgrifennu 15%) i CA3 (llefaredd 60%, darllen 20%, ysgrifennu 20%). Mae yna wahaniaethau cynnil wrth ymdrin â phob maes pwnc, ac er bod yna egwyddorion arweiniol sy'n gymwys i'r holl bynciau craidd mewn perthynas â safoni a chymedroli, dylai athrawon fod yn ymwybodol o'r disgwyliadau penodol mewn perthynas â bob pwnc.

C. A oes angen i ni gynhyrchu proffil 'cyhoeddedig' ar gyfer ein cyfarfodydd cymedroli clwstwr?

A. Nac oes. Dylai proffil dysgwr fod mor syml â llyfr neu lyfrau'r dysgwr sy'n dangos tystiolaeth o nodweddion lefelau a tharged/targedau cyrhaeddiad perthnasol. Gall gwaith arall fyddai'n cwblhau'r darlun o safon y disgybl gynnwys llyfr thema/testunol, recordiadau sain neu weledol, cofnod darllen. Yna, yr hyn sy'n troi gwaith y disgybl o'r flwyddyn honno yn broffil dysgwr yw'r sylwadau y mae'r athro yn eu hysgrifennu am y gwaith er mwyn egluro a chyfiawnhau sut mai'r lefel gyffredinol a ddyfarnwyd yw'r ffit orau a sut mae'n adlewyrchu'r ystod o waith a wnaethpwyd. Dylai'r sylwadau gyfeirio'r darlennydd at enghreifftiau o waith y disgybl sy'n nodweddiadol o'r lefel dan sylw. Pan fo mwy nag un targed cyrhaeddiad (TC) mewn pwnc, dylai'r sylwadau ddangos sut y cyfiawnheir lefel ar gyfer pob TC, ac yna darparu dyfarniad crynodol ynglŷn â pham, yn gyffredinol, mae'r gwaith yn ei gyfanrwydd ar y lefel a ddyfarnwyd iddo.

C. A oes angen i ni wneud mwy nag un copi o'n proffiliau dysgwyr ar gyfer cyfarfod cymedroli clwstwr?

A. Nac oes. Nid yw hyn yn ymarferol ond gall gweithredu cylch cymedroli fod yn gynhyrchiol iawn pan fo athrawon yn edrych ar broffiliau dysgwyr fesul un yn eu tro. Gall delweddydd fod yn fuddiol iawn ar gyfer cynorthwyo'r drafodaeth yn ystod y broses.

C. A oes angen i bob athro fynychu pob cyfarfod cymedroli clwstwr yn ystod tymor yr haf?

A. Ysgolion unigol sydd i benderfynu pwy sy'n mynychu cyfarfodydd cymedroli clwstwr, ond mae'n bwysig bod gan arweinwyr ysgolion ddigon o wybodaeth uniongyrchol ynglŷn â'r broses er mwyn eu galluogi i fod yn sicr bod dyfarniadau eu hysgolion yn gywir a bod y dyfarniadau yn cael sêl bendith broffesiynol y clwstwr. Os na fydd materion yn cael eu trafod yn y cyfarfod oherwydd nad yw athrawon dosbarth yn teimlo eu bod yn gallu dwyn sylw atynt, bydd gwerth y broses yn gwanhau ac ni fydd gan arweinwyr ysgolion yr hyder y dylai fod ganddynt o ganlyniad i'r broses.

C. Pa ddogfennaeth ategol arall sydd ar gael i'r ysgol a'r clwstwr ei defnyddio?

- A.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu nifer o ddogfennau arweiniol ar gyfer cefnogi asesiadau athrawon;

Sicrhau cysondeb mewn asesiadau athrawon Canllawiau ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3 Llywodraeth Cymru, 2008

Pynciau penodol (Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth) canllawiau ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3 Llywodraeth Cymru, 2008.

Gwneud y mwyaf o asesu 7-14 Llywodraeth Cymru, 2010

Trefniadau asesu statudol ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol 2 a 3 Llywodraeth Cymru, blynyddol

Gellir lawrlwytho copïau o'r dogfennau hyn o wefan Dysgu Cymru www.learningwales.gov.uk

- B.** Mae'r pedwar consortiwm addysg yng Nghymru wedi cynhyrchu 'Arweiniad byr ar asesu mewn ysgolion' sy'n cynnwys mwy o ganllawiau ar le cymedroli yng nghontinwrm y broses asesu. Mae hyn ar gael ar wefannau'r consortia.

Atodiad A: Enghraifft o amserlen consortiwm ar gyfer cymedroli clwstwr

Bydd y gweithgareddau, yr amserlen a'r cyfranogwyr yn amrywio o un consortiwm i'r llall a byddant yn cael eu hailgyhoeddi ganddynt bob blwyddyn er mwyn bodloni terfynau amser Llywodraeth Cymru ac amgylchiadau lleol.

Gweithgaredd	Amserlen	Cyfranogwyr	Cyllid
Clystyrau i ddewis Cadeirydd y Clwstwr ar gyfer asesu	Cyflwyno enw Cadeirydd y Clwstwr l..... (swyddog) Erbyn..... (dyddiad)	Penaethiaid / Uwch arweinydd ym mhob clwstwr	Ddim yn berthnasol
ALI/ Arweinydd consortiwm ar gyfer asesu i fynychu hyfforddiant rhanbarthol	<i>Dyddiad:...</i> <i>Lleoliad.....</i>	Arweinydd o bob ALI (pan fo'n briodol) Cadeirydd y Consortiwm (pan fo'n briodol) ar gyfer asesu	
Cadeiryddion Clystyrau yn mynychu hyfforddiant	<i>Dyddiad:...</i> <i>Lleoliad.....</i>	Cadeiryddion Clystyrau/ Arweinydd consortiwm ar gyfer asesu	
Cadeiryddion Clystyrau yn briffio ysgolion ynglŷn â gofynion ac yn cytuno ar amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd	<i>Erbyn.....</i>	Penaethiaid / UDA ym mhob clwstwr	
Cadeiryddion Clystyrau yn hysbysu'r ALI/Consortiwm ynglŷn â dyddiadau a lleoliadau ar gyfer cymedroli clystyrau	<i>Erbyn.....</i>	Cadeirydd Clwstwr ALI/Arweinyddion asesu'r consortiwm (pan fo'n briodol)	
Ysgolion yn paratoi ar gyfer cymedroli clwstwr a dilysu h.y. cymedroli lefelau yn fewnol, dewis proffiliau dysgwyr, cwblhau sylwadau.	<i>Cyn.....(dyddiad)</i>	Holl staff addysgu'r ysgolion Cadeirydd Clwstwr	
Clystyrau'n cyfarfod fesul pwnc er mwyn cymedroli'r lefelau a ddyfarnwyd	<i>Dyddiadau cychwyn a gorffen a argymhellir....e.e. 11 Ebrill i 13 Mai</i>	Athrawon perthnasol ar gyfer pob pwnc Penaethiaid/UDA/Athrawon ALI/Staff consortiwm	
Ysgolion yn paratoi ar gyfer dilysu cenedlaethol os y'u dewisir	<i>Ar ôl.....(y dyddiad cynharaf pan fo'r dilyswyr yn cychwyn ymweld ag ysgolion)</i>	Ysgolion Dilyswyr	

Atodiad B

Sylwadau ar broffil dysgwyr (i'w ddefnyddio yn ystod y broses o gymedroli clwstwr)

Ysgol: _____

Pwnc		Lefel ffit orau a ddyfarnwyd	
<i>Rhesymau dros ddyfarnu'r lefel ffit orau (Cyfeirio at dystiolaeth yn y proffil a, phan fo mwy nag un TC, nodi a chyfiawnhau'r lefel ffit orau ar gyfer pob un)</i>			
Cyfiawnhad crynodol am y lefel a ddyfarnwyd			

Atodiad Ch

Arweiniad ar gwblhau'r adroddiad cymedroli clwstwr

Gwybodaeth am y broses gymedroli:

A fu i bob ysgol gynradd ddod â phroffiliau lefel 4 a lefel 5 i'r cyfarfod?

A fu i bob ysgol uwchradd ddod â phroffiliau lefel 5 a lefel 6 i'r cyfarfod?

A fu i unrhyw ysgol ddod â phroffiliau dysgwyr ar unrhyw lefel arall e.e. disgybl B6 ar lefel 6. A oedd hyn yn fuddiol?

Sut y trefnwyd y broses gymedroli ar y diwrnod e.e. a fu i bawb oedd yn bresennol weld pob proffil neu a fu i wahanol grwpiau ystyried gwahanol setiau o broffiliau dysgwyr? Sawl proffil dysgwr a welodd pob cymedrolwr?

A gyfeiriwyd at enghreifftio proffiliau dysgwyr ar wahanol lefelau?

A gafwyd tystiolaeth bod yr holl broffiliau wedi'u cymedroli; yn fewnol yn yr ysgolion cyn y cyfarfod?

A oedd yr ysgolion wedi darparu digon o dystiolaeth ynglŷn â dyfarnu lefel ffit orau briodol?

Pa ysgolion, os o gwbl, oedd angen darparu mwy o dystiolaeth ac ym mha feysydd?

Pa ysgolion, os o gwbl, gyflwynodd unrhyw broffiliau dysgwyr yr ystyriwyd eu bod yn arfer orau?

Sylwadau eraill

Deilliannau'r Cymedroli:

A gytunwyd ar ddyfarniadau proffiliau dysgwyr lefel 4? A gododd unrhyw faterion?

A gytunwyd ar ddyfarniadau proffiliau dysgwyr lefel 5? A gododd unrhyw faterion?

A gytunwyd ar ddyfarniadau proffiliau dysgwyr lefel 6? A gododd unrhyw faterion?

A gododd unrhyw faterion ynglŷn â dyfarniadau unrhyw ysgol benodol h.y. a oedd eu dyfarniadau yn fwy caredig neu'n fwy llym na'r consensws a sefydlwyd wrth gymedroli?

A fydd angen iddynt gynhyrchu mwy o dystiolaeth fydd yn sicrhau gwell ystod?

A fydd angen iddynt ailystyried y lefelau a ddyfarnwyd i waith disgyblion na chyflwynwyd ar gyfer cymedroli?

Sylwadau eraill

Argymhellion ar gyfer ysgolion unigol/clwstwr:

Pa argymhellion a roddwyd i ysgolion unigol?

Pa wersi sydd yma i'r clwstwr?

Ym mha ffyrdd allai'r clwstwr atgyfnerthu'r prosesau cymedroli presennol?

Sylwadau eraill

Atodiad Ch

Adroddiad Cymedroli Clwstwr (Enghraifft)

Clwstwr	Ysgol Hefin Morgan		
Awdurdod Lleol	Dwyrain Morgannwg		
Pwnc	Saesneg		
Dyddiad y cyfarfod	Ebrill 29, 2015		
Presennol	Enw	Rôl	Ysgol
	Ceri Jones	Athro B6	Ysgol Plas y Brenin
	Chris Patchell	Pennaeth	Ysgol Plas y Brenin
	Dafydd Tomos	Pennaeth Saesneg	Ysgol Hefin Morgan
	Heulwen Samuel	Dirprwy Bennaeth	Ysgol Hefin Morgan
	Mari Lloyd	Athrawes B6	Ysgol Tregannog
	Elin Edwards	Pennaeth	Ysgol Tregannog
	Shane Watkins	Athro B6	Ysgol Cwm Taf
	Kelly Rawle	Pennaeth	Ysgol Cwm Taf

Gwybodaeth am y broses gymedroli:

- Bu i gynrychiolwyr o bob ysgol gynradd ddod â phroffiliau dysgwyr Lefel 4 a Lefel 5 (disgyblion Blwyddyn 6) gyda hwy i'r cyfarfod a bu i'r ysgolion uwchradd ddod â phroffiliau Lefel 5 a Lefel 6 (disgyblion Blwyddyn 9). Ni fydd yr un ysgol yn dyfarnu Lefel 6 eleni.*
- Cytunwyd i rannu'n ddau grŵp er mwyn adolygu'r proffiliau. Bu i'r ddau grŵp gymedroli 6 phroffil dysgwr yr un.*
- Gan gyfeirio at y proffiliau dysgwyr a disgrifiadau lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol, trafodwyd cynnwys y proffiliau a'r lefelau ffit orau a ddyfarnwyd.*
- Cafwyd tystiolaeth bod yr holl broffiliau wedi'u cymedroli; yn fewnol yn yr ysgolion cyn y cyfarfod. Llofnodwyd y proffiliau gan yr athrawon perthnasol a'u dyddio'n briodol.*
- Cytunodd y grwpiau bod y rhan fwyaf o'r ysgolion wedi darparu digon o dystiolaeth er mwyn dyfarnu lefel ffit orau i'r disgyblion.*
- Nodwyd bod angen i Ysgol Plas y Brenin ddarparu mwy o dystiolaeth o asesu cyrhaeddiad mewn llefaredd ac roedd angen mwy o dystiolaeth o ddarllen ym mhroffiliau Ysgol Hefin Morgan.*
- Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd ym mhroffiliau Ysgol Cwm Taf yn effeithiol iawn gydag ystod eang o waith ysgrifennu llenyddol ac anllenyddol.*

Deilliannau'r Cymedroli:

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd bod y proffiliau ar y cyfan yn gyson. Roedd yna gysondeb da rhwng y rhan fwyaf o broffiliau Lefel 5 yr ysgolion cynradd a phroffil dysgwr Lefel 5 yr ysgol uwchradd. Roedd yna gytundeb cyffredinol ynglŷn â'r lefelau ffit orau a ddyfarnwyd ond nodwyd y canlynol:

- Dim digon o dystiolaeth ym mhroffiliau Ysgol Uwchradd Hefin Morgan (gweler uchod). Bydd yr ysgol yn adolygu ei phroffiliau er mwyn cynnwys tystiolaeth addas o gyrhaeddiad darllen yn y proffiliau.*
- Proffil Lefel 5 Ysgol Plas y Brenin - roedd y grŵp yn cytuno bod y proffil yn adlewyrchu Lefel 4 oherwydd nad oedd yna ddigon o nodweddion Lefel 5. O ystyried hyn, bydd yr ysgol yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'w lefelau asesuadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol.*

Argymhellion ar gyfer ysgolion unigol/clwstwr:

- Fel clwstwr, rydym wedi cytuno ar ddull cyffredin o gyfeirio at dystiolaeth yn y proffiliau*

dysgwyr.

- *Bydd Ysgol Uwchradd Hefin Morgan* yn ceisio trefnu cyfarfod safoni a chyfarfod cymedroli gydag ysgolion uwchradd eraill er mwyn cymharu ystod y gwaith a'r safonau a gyflawnwyd.
- *Bydd Ysgol Plas y Brenin* yn adolygu ei ddehongliad o'r disgrifiadau lefel, a'r flwyddyn nesaf bydd y cysylltu ag Ysgol Gynradd Cwm Taf er mwyn cymharu dyfarniadau safonau.

Arwyddwyd ar ran y clwstwr:

Atodiad Dd: Proses sampl ar gyfer sefydlu prosesau safoni a chymedroli yn yr ysgol

	WEDI YMGYSYLLTU	YN DATBLYGU	WEDI'I SEFYDLU
SAFONI YN YR YSGOL	<ul style="list-style-type: none"> Mae athrawon yn cyfarfod i drafod agweddau o ddarnau o waith unigol ar draws yr ystod o lefelau a grwpiau blwyddyn ar gyfer pob pwnc craidd ac ar draws pob Targed Cyrhaeddiad (TC) mewn Cymraeg a Saesneg. Mae nodweddion disgrifiadau lefel yn cael eu nodi, a'u trafod a chytunir arnynt. Mae'r darnau yma o waith yn cael eu hanodi er mwyn dangos nodweddion lefel. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r holl athrawon yn cyfrannu at y drafodaeth ynglŷn â darnau o waith unigol a samplwyd ym mhob pwnc craidd a TC ar wahân mewn Cymraeg a Saesneg. Mae'r samplau yn adlewyrchu ystod o gyd-destunau dysgu (e.e. symbyliad llenyddol ac anllenyddol neu resymu rhifyddol/gwyddonol). Mae'r ysgol yn cynllunio'n eglur ac mae wedi sefydlu trefniadau ar gyfer sicrhau a chynnal dealltwriaeth ar y cyd o safonau'r cwricwlwm cenedlaethol. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r holl staff (yn cynnwys Cynorthwyr Addysgu) yn cymryd rhan mewn trafodaeth am ddarnau o waith unigol a samplwyd ym mhob pwnc. Mae'r samplau yn adlewyrchu ystod o gyd-destunau pwnc (e.e. symbylu a chymhwyso trawsgwricwlaidd). Mae'r ysgol yn defnyddio samplau cytunedig o waith eu dysgwyr fel set gyfeiriol o enghreifftiau (e.e. portffolio safonedig ar gyfer pob pwnc craidd / TC (Cymraeg/Saesneg) Mae'r ysgol yn adolygu portffolios yn flynyddol er mwyn sicrhau gwerth ychwanegol parhaus a pherthnasedd i'r set gyfeiriol o enghreifftiau. Mae'r pennaeth yn flynyddol yn adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer safoni yn yr ysgol.
SAFONI YN YR YSGOL	<ul style="list-style-type: none"> Mae penaethiaid yn nodi ac yn cynllunio prosesau cymedroli yn yr ysgol. Mae'r holl athrawon yn cymryd rhan yn y drafodaeth ynglŷn â phroffiliau dysgwyr disgyblion Blwyddyn 6 a 9. Mewn perthynas â Chymraeg a Saesneg, mae'r drafodaeth yn cynnwys ymdrin â'r holl dargedau cyrhaeddiad (TC) a'u lefelu. Mae'r lefelau agosaf yn cael eu hystyried a chytunir ar y lefel ffit orau gyffredinol a ddyfermir 	<ul style="list-style-type: none"> Mae nodweddion disgrifiadau lefel yn cael eu nodi, a'u trafod a chytunir arnynt. Mae proffiliau dysgwyr yn cael eu hanodi er mwyn dangos nodweddion lefel. Mae proffiliau dysgwyr yn adlewyrchu'r ystod a'r sgiliau a enghreifftir yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae proffiliau dysgwyr y cytunir arnynt gan y clwstwr yn cael eu cyfeirnoddi er mwyn sicrhau cysondeb mewn perthynas ag asesiadau athrawon. 	<ul style="list-style-type: none"> Drwy gyfrwng y broses gymedroli, rhoddir ystyriaeth ofalus i osod tasgau dliys er mwyn rhoi cyfle i ddisgyblion ddangos sgiliau lefel uwch a sicrhau bod y tasgau yn mesur y sgiliau angenrheidiol. Mae'r ysgol yn adolygu gweithdrefnau cymedroli'r ysgol yn flynyddol.

<p>SAFONI CLWSTR (Yr holl ysgolion yn cael eu cynrychioli -)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae athrawon sy'n cynrychioli eu hysgolion yn cyfarfod i drafod agweddau o'r darnau o waith unigol (a samplwyd ar gyfer pob TC mewn Cymraeg a Saesneg) • Mae nodweddion disgrifiadau lefel yn cael eu nodi, a'u trafod a chytunir arnynt. • Mae'r darnau yma o waith yn cael eu hanodi er mwyn dangos nodweddion lefel. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r samplau ar gyfer TC pob pwnc (Cymraeg/Saesneg) yn adlewyrchu ystod o gyd-destunau dysgu (e.e. symbyliad llenyddol ac anllenyddol neu resymu rhifyddol/gwyddonol). • Mae'r clwstr yn cynllunio'n eglur ac mae wedi sefydlu trefniadau ar gyfer sicrhau a chynnal dealltwriaeth ar y cyd o safonau'r cwricwlwm cenedlaethol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r samplau ar gyfer TC pob pwnc (Cymraeg/Saesneg) yn adlewyrchu ystod o gyd-destunau pwnc (e.e. symbylu a chymhwyso trawsgwricwlaidd). • Mae pob ysgol yn defnyddio samplau safonedig o waith dysgwyr fel set gyfeiriol o enghreifftiau i'w cynnwys ym mhorthfolios safoni eu hysgol. • Mae'r clwstr yn adolygu eu portffolios a gymedrolwyd yn flynyddol er mwyn sicrhau gwerth ychwanegol parhaus a pherthnasedd i'r set o enghreifftiau.
<p>CYMEDROLI CLWSTR DIWEDD CYFNOD ALLWEDDOL (Yr holl ysgolion yn cael eu cynrychioli)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae penaethiaid yn nodi ac yn cytuno ar ddyddiad cyfarfod cymedroli clwstr. • Mae athro/athrawes/athrawon o bob ysgol yn cael eu rhyddhau o'r ysgolion er mwyn mynychu'r cyfarfod cymedroli clwstr. • Mae pob ysgol yn darparu proffiliau dysgwyr a gymedrolwyd yn fewnol (yn cynnwys pob TC yn achos Cymraeg/Saesneg). • Er mwyn sicrhau cysondeb mewn perthynas ag asesiadau athrawon, mae penderfyniadau cytunedig a deilliannau'r cyfarfodydd clwstr yn cael eu gweithredu gan yr holl staff perthnasol yn eu hysgolion, cyn yr asesu diwedd cyfnod allweddol terfynol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae athrawon yn darparu ac yn trafod proffiliau dysgwyr Lefel 4, 5 a 6 disgyblion B6 a B9. • Mae nodweddion disgrifiadau lefel yn cael eu nodi a'u trafod a chytunir arnynt wrth ystyried y lefelau agosaf. Mae hyn yn cynnwys pob TC yn achos Cymraeg a Saesneg. • Mae sylwadau ar broffiliau dysgwyr yn cyfeirio at nodweddion lefel. • Cytunir ar y lefel ffit orau cyffredinol i'w ddyfarnu ar gyfer pob profil dysgwr, a rhoddir ystyriaeth ddyledus i bob TC yn achos Cymraeg a Saesneg. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae athrawon yn darparu ac yn trafod proffiliau dysgwyr Lefel 3 a/neu Lefel 7 fel sy'n briodol i gyd-destun pob ysgol. • Mae'r clwstr yn dewis profil dygwr a gymedrolwyd sy'n dangos dyfarniadau ffit orau sy'n cynrychioli'r lefel gytunedig ar draws y clwstr. Mae copi ar gael ym mhob ysgol fel cyfeirnod â sêl bendith y clwstr ar gyfer asesiadau athrawon, sydd i'w ystyried ynghyd â phroffiliau dysgwyr enghreifftiol 'cenedlaethol'. • Mae'r clwstr yn adolygu'r proffiliau dysgwyr cynrychioliadol cytunedig yn flynyddol er mwyn sicrhau gwerth ychwanegol parhaus a pherthnasedd i'r set o enghreifftiau. • Mae penaethiaid y clwstr yn adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer cymedroli clwstr gan ddefnyddio dogfen Llywodraeth Cymru, Trefniadau asesu statudol ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3.

